

Hanfod y gwahaniaeth

“Y mae’r byd a’i drachwant yn mynd heibio, ond y mae’r sawl sy’n gwneud ewylllys Duw yn aros am byth.” (adn. 17)

Beth am ddarllen 1 Ioan 2:7–17 ac yna myfyrio

Yn yr Eglwys sydd wedi ei diwygio, yr Eglwys sydd yn barod i gyfarfod â her yr unfed ganrif ar hugain, rhaid diogelu’r sylfaen, sef y newyddion da am yr Arglwydd Iesu. Pan fu i’r disgyblion gyhoeddi hyn yn Antiochia, fe glywn yn ôl Actau 11:21: “Yr oedd llaw’r Arglwydd gyda hwy, a mawr oedd y nifer a ddaeth i gredu a throï at yr Arglwydd.” Ychydig amser yn ôl, dywedodd swyddog eglwysig wrthyf fod yna bwyllgor, oedd yn gyfrifol am efengyl y yn ei eglwys, wedi dod i’r casgliad y byddai’n well iddynt adael allan y geiriau ‘Duw’ a ‘Iesu Grist’ wrth wynebu dynion a gwragedd y genhedlaeth hon, gan gyfeirio’n unig at y bywyd da. Os gadewir Iesu a Duw allan, beth sydd ar ôl? Dim mwy na dyneiddiaeth. Dychmygwch petai’r adnod yr ydym yn meddwl amdani yn ystod y deufis hwn (Actau 11:20) yn darllen fel hyn: “Yr oedd rhai ohonynt, beth bynnag, dynion o Cyprus a Cyrene wedi mynd i Antiochia a dechrau siarad hefo’r Groegiaid gan ddweud wrthynt am y bywyd da.” A fyddem yn darganfod wedyn fod llaw’r Arglwydd gyda nhw a bod nifer fawr o bobl wedi troi a chredu yn yr Arglwydd? Byth! Bydded i’r Eglwys geisio ei gwaredu ei hun o unrhyw ymdrech i wanhau neges yr Efengyl. Heb Iesu, does dim newyddion da.

Mae angen cael gwared hefyd ar y syniad y dylem fod yr un fath â phobl er mwyn eu hennill. Clywais am un dyn oedd yn arfer ymatal rhag yfed cwrw, ac, eto, roedd yn llwytho ei stepen drws â photeli cwrw fel bod ei gymdogion yn credu ei fod fel un ohonynt hwy. Mae’n rhaid i ni, wrth gwrs, godi pontydd at bobl, i rannu ym mhrofiadau pobl, ond dim ond rhannu i’r graddau lle byddwn yn ofalus i beidio anwybyddu egwyddorion y Beibl. Yr ydym i sicrhau bod yna wahaniaeth hanfodol rhyngom; y gwahaniaeth yma fydd yn peri fod eraill am fod yn wahanol.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eff. 4:17–32; 6:1–10; 1 Cor. 9:16–23

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw y gwahaniaeth sylfaenol?
2. Beth sydd yn gyffredin rhyngom?

Gweddi

O Dad, caniatâ i ni ddiogelu gwahaniaeth sylfaenol mewn ffordd fydd yn peri nad yw pobl yn ein gweld fel rhai sydd ar wahân, ond, yn hytrach, yn rhai enillgar. Dysga ni sut i fod yn y byd heb fod o’r byd. Yn enw Iesu. Amen.